[Dyddiad]

Annwyl Reolwr Recriwtio / Enw'r Recriwtiwr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i fynegi fy niddordeb mewn cyfleoedd i wneud interniaeth yn Bloomsbury Publishing. A minnau'n fyfyriwr yn fy nhrydedd flwyddyn ar hyn o bryd, yn astudio BA (Anrh) mewn Llenyddiaeth Saesneg a Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd, rwy'n awyddus i ddefnyddio fy angerdd am lenyddiaeth, fy mhrofiad golygyddol, a'm sgiliau dadansoddi cryf yn eich sefydliad cyhoeddi o fri.

Drwy gydol fy nhaith academaidd hyd yma, rwy wedi bod yn ymchwilio i'r cysylltiadau cymhleth rhwng llenyddiaeth a chyd-destunau hanesyddol. Mae'r dull rhyngddisgyblaethol hwn nid yn unig wedi mireinio fy sgiliau meddwl beirniadol a dadansoddi, ond hefyd wedi dyfnhau fy ngwerthfawrogiad o draddodiadau llenyddol amrywiol. Ym Mhrifysgol Caerdydd, rwyf wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o strwythurau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, ac rwy'n credu bod y rhain yn hollbwysig ym myd cyhoeddi. Drwy fy ngwaith cwrs a gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys fy rôl bresennol yn Olygydd y papur newydd i fyfyrwyr, sef Gair Rhydd, mae wedi fy arfogi â'r sgiliau golygyddol ac arweinyddiaeth y bydd eu hangen arnaf i ddilyn gyrfa lwyddiannus ym myd cyhoeddi.

A minnau'n Olygydd y Gair Rhydd, rwyf wedi ysgrifennu erthyglau golygyddol a darnau barn afaelgar, wedi prawf-ddarllen erthyglau er mwyn gwirio eu heglurder a'u cywirdeb, ac wedi arwain cyfranwyr i ysgrifennu cynnwys o safon. Mae'r rôl hon wedi gwella fy ngalluoedd golygyddol yn sylweddol, yn ogystal â fy ngallu i reoli amserlenni cyhoeddi, a hyn oll wrth gadw at safonau cyfreithiol a moesegol ar yr un pryd. Mae fy mhrofiad yn y rôl hon wedi dwysau fy uchelgais i gyfrannu at y diwydiant cyhoeddi, a hyderaf y bydd fy sgiliau a'm hangerdd o fudd mawr yn y diwydiant hwn.

Yn ogystal â'm profiad o olygu, rwy hefyd yn diwtor preifat, ac mae hyn wedi rhoi min ar fy ngallu i gyfleu syniadau cymhleth mewn modd effeithiol. Mae cynllunio gwersi atyniadol a chynnig adborth adeiladol wedi cryfhau fy nhechnegau addysgol, ac wedi dyfnhau fy ngwybodaeth o lenyddiaeth Saesneg a thechnegau dadansoddi. Mae'r profiadau hyn wedi datblygu fy ngallu i gyfathrebu'n glir a meithrin cydweithio, sydd, yn fy marn i, yn sgiliau hanfodol er mwyn bod yn intern llwyddiannus yn Bloomsbury Publishing.

Mae hanes fy nghyflogaeth, sy'n cynnwys gwneud sawl tasg ar yr un pryd mewn clwb nos prysur yn Kapu Club, Caerdydd, a sicrhau profiad cwsmer cadarnhaol yn Retrocards, Brighton, wedi meithrin ynof etheg waith gref a'r gallu i ffynnu mewn gweithleoedd prysur. Roedd gwirfoddoli yn Oxfam yn rhan o'r Wobr Dug Caeredin wedi datblygu fy ngwydnwch, fy nyfalbarhad a'm gallu i addasu ymhellach.

Rwy'n cael fy nenu at Bloomsbury Publishing yn arbennig oherwydd ymrwymiad y cwmni i gyhoeddi gweithiau sy'n amrywio o ran genres a phynciau, gan adlewyrchu fy niddordebau academaidd rhyngddisgyblaethol fy hun. Rwy'n awyddus i gyfrannu at genhadaeth Bloomsbury ac i ennill profiad amhrisiadwy yn y diwydiant cyhoeddi. Hyderaf y bydd fy nghefndir academaidd, fy mhrofiad golygyddol, a'm hangerdd am lenyddiaeth yn fy ngwneud yn ymgeisydd cryf ar gyfer yr interniaeth hon.

Diolch yn fawr i chi am ystyried fy nghais. Rwy'n edrych ymlaen at y posibilrwydd o gyfrannu at Bloomsbury Publishing, ac rwy'n llawn cyffro i gael y cyfle i drafod sut mae fy sgiliau a phrofiadau yn alinio â'ch anghenion.

Yn ddiffuant/Yr eiddoch yn gywir

Enw’r Ymgeisydd